*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 3187 (Cy.303)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Rheoliadau Diwygio'r Drefn Brydlesol (Hysbysiadau) (Diwygio) (Cymru) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *18 Rhagfyr 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ionawr 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 66 o Ddeddf Landlord a Thenant 1954(**1**), a phob pŵ er arall sy'n ei alluogi yn hynny o beth, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

(**1**) 1954 p.56. Diwygiwyd adran 66(1) a (2) gan O.S. 1974/1896. Cymhwysir adran 66 o Ddeddf Landlord a Thenant 1954 i hysbysiadau o dan Ran I o Ddeddf Diwygio'r Drefn Brydlesol 1967 (p.88) gan adran 22(5) o'r Ddeddf honNo. *Gweler* erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddi (O.S. 1999/672).